


# Tystiolaeth Cydymffurfio Brandio a Chyhoeddusrwydd CFfGDU Gogledd Cymru

# Dolenni Defnyddiol

## Defnyddiwch y ddolen isod i gael mynediad i wefan Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru lle byddwch yn dod o hyd i ddolenni i;

- Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU: canllawiau brandio a chyhoeddusrwydd
- Canllawiau penodol i Gronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru
- Pecyn Cymorth Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata

Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru

Mae brandio a chyhoeddusrwydd yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau hyrwyddo a chydnabod agenda ehangach llywodraeth y DU a phenderfyniadau eich Awdurdod Lleol yn effeithiol.

Mae'r gofynion hyn yn ymwneud â'r holl ddeunyddiau cyfathrebu a dogfennau sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n ymwneud â gweithgarwch a ariennir – gan gynnwys print a chyhoeddiadau, hyd at ddeunyddiau digidol ac electronig. Mae hyn yn cynnwys unrhyw weithgaredd paratoi sy'n gysylltiedig â'r Gronfa.

Mae cydymffurfio â gofynion brandio a chyhoeddusrwydd yn amod o'r Cytundeb Ariannu grant.

# Gosod logo ar ddeunyddiau prosiect

Conwy County Borough Council

Denbighshire County Council

Flintshire County Council

cyngor-gwynedd

Isle of Anglesey County Council

Wrexham County Borough Council

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government

## Pwysigrwydd Lleoliad Logo

Mae lleoliad logo priodol yn sicrhau cydymffurfiaeth brandio a gwelededd ar holl ddeunyddiau prosiect, gan wella cydnabyddiaeth o ffynonellau cyllid.

## Cydymffurfio â Chanllawiau Brandio

Dylid defnyddio logo pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru sy'n ariannu'r prosiect drwy UKSPF ym mhob deunydd cyfathrebu a dogfennau sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n ymwneud â'r gweithgaredd a ariennir.

Dylai'r logos ymddangos yn y safle 'partner ariannu', fel y dangosir yn y Llawlyfr Brandio a ariennir gan lywodraeth y DU.

## Tystiolaeth a Dogfennaeth

Mae ffotograffau, copïau wedi'u sganio, a screenshots yn darparu prawf o leoliad logo cywir ar gyfer gwirio cydymffurfiaeth.

# Gwefannau a chyfryngau cymdeithasol

[Employer Green Skills Initiative | Grŵp Llandrillo Menai]




**Cydnabyddiaeth Orfodol Webiste**

Pan gyhoeddir manylion gweithgareddau'r Gronfa ar wefan, mae'n rhaid cynnwys cyfeiriad clir ac amlwg at y cyllid gan yr UKSPF fel a ganlyn:

**'Mae'r prosiect hwn wedi cael ei [ariannu/ariannu yn rhannol] gan Llywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.'**

Os yw'n ymarferol, dylai cyflenwyr prosiectau gynnwys dolen i dudalen we Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig hefyd, yn ogystal â'r testun canlynol (y mae'n rhaid ei ddefnyddio hefyd ar gyfer nodiadau i olygyddion):

**Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (UKSPF) yn cefnogi cyflawni pum cenhadaeth genedlaethol llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhagweithiol: gwthio pŵer allan i gymunedau ym mhobman, gyda phwyslais penodol ar helpu i sbarduno twg economaidd a hyrwyddo cyfleoedd ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.**

**Tystiolaeth o gydymffurfio**

Mae cyflwyno copïau dyddiedig, sgrinluniau, neu ddolenni i sylw yn y cyfryngau yn dangos cydymffurfiaeth â gofynion cydnabyddiaeth ariannu.

# Cyfryngau Cymdeithasol

## Cyfryngau Cymdeithasol

Wrth ddisgrifio neu hyrwyddo gweithgareddau'r UKSPF ar gyfryngau cymdeithasol fel X (Twitter), dylid defnyddio'r hashnod (#) canlynol #UKSPF #CFFGDU

### Tystiolaeth o gydymffurfio

Mae cyflwyno copïau dyddiedig, sgrinluniau, neu ddolenni i sylw yn y cyfryngau yn dangos cydymffurfiaeth â gofynion cydnabyddiaeth ariannu.



# Datganiadau i'r Wasg

Enghraifft Datganiad i'r Wasg
Teitl: Agor Canolfan Gymunedol Newydd yng Nghonwy Diolch i Gyllid UKSPF
Dyddiad: 25/05/2025
Prif Gynnwys: Mae canolfan gymunedol newydd wedi agor yn swyddogol yng Nghonwy, gan ddarparu lle i drigolion lleol ar gyfer dysgu, llesiant a gweithgareddau cymdeithasol. Mae'r prosiect wedi derbyn £150,000 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Bydd y ganolfan yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys gweithdai sgiliau digidol, sesiynau iechyd a llesiant, a chefnogaeth i fusnesau lleol. Mae'r buddsoddiad hwn yn anelu at gryfhau cysylltiadau cymunedol a chreu cyfleoedd newydd i drigolion ar draws y rhanbarth. Mae arweinwyr lleol wedi croesawu'r datblygiad, gan amlygu ei rôl wrth wella mynediad at wasanaethau hanfodol a hybu twf economaidd.
Nodiadau i'r Golygyddion: Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) yn cefnogi cyflawni pum cenhadaeth genedlaethol Llywodraeth y DU: rhoi mwy o bŵer i gymunedau ym mhob man, gyda ffocws penodol ar sbarduno twf economaidd a hyrwyddo cyfleoedd ym mhob rhan o'r DU.

Rhaid i ddatganiadau i'r wasg gynnwys cyfeiriad clir ac amlwg at CFfGDU ym mhrif gorff y datganiad i'r wasg fel a ganlyn:

**"Mae'r [prosiect hwn/Enw'r prosiect] wedi cael £[RHOWCH Y SWM] gan lywodraeth y Deyrnas Unedig trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig."**

Mae'n rhaid hefyd defnyddio nodiadau penodedig i olygyddion yn yr holl weithgareddau â'r cyfryngau.

**"Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (UKSPF) yn cefnogi cyflawni pum cenhadaeth genedlaethol llywodraeth y Deyrnas Unedig yn rhagweithiol: gwthio pŵer allan i gymunedau ym mhobman, gyda phwyslais penodol ar helpu i sbarduno twf economaidd a hyrwyddo cyfleoedd ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig."**